

Polisi Diogelu

Mae'r polisi hwn yn berthasol i holl staff NEW Dance gan gynnwys y Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, staff asiantaeth ac unrhyw un sy'n gweithio ar ran NEW Dance.

Diben y polisi hwn yw:

- Amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed sy'n derbyn y gwasanaethau ac sydd mewn cyswllt â NEW Dance. Mae hyn yn cynnwys plant oedolion sy'n defnyddio'n gwasanaethau.
- Esbonio i staff a gwirfoddolwyr y prif egwyddorion sy'n arwain ein dull o Ddiogelu.

Cred NEW Dance na ddylai plentyn, person ifanc nac oedolyn agored i niwed fyth brofi camdriniaeth o unrhyw fath.

Mae gennym y cyfrifoldeb i hyrwyddo lles pob plentyn, person ifanc ac oedolyn agored i niwed a'u cadw nhw'n ddiogel.

Rydym wedi ymrwmo i arferion sy'n eu hamddiffyn.

Fframwaith Cyfreithiol

Mae ein polisi Diogelu wedi cael ei lunio ar sail cyfraith a chanllawiau sy'n ceisio amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, sef:

- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1991
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Datganiad Polisi'r Llywodraeth ar Ddiogelu Oedolion
- Canllawiau a chynghor a ddarparwyd gan y Llywodraeth ar Ddiogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed, gan gynnwys Making safeguarding personal – pecyn cymorth ar gyfer ymatebion (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2015), Canllawiau Rhannu Gwybodaeth (Adran Iechyd Lloegr)

Mae NEW Dance yn cydnabod y canlynol:

- Mae lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn holl bwysig, fel y nodir yn Deddf Plant 1989 a Deddf Gofal 2014
- Mae gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn agored i niwed, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, treftadaeth hiliol, cred grefyddol, cyfeiriadedd neu hunaniaeth rhywiol, hawl i amddiffyniad cyfartal rhag pob math o niwed a chamdriniaeth.
- Mae rhai plant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed yn agored i niwed ychwanegol oherwydd effaith profiadau blaenorol, eu graddau o ddibyniaeth, anghenion cyfathrebu neu faterion eraill.

- Mae NEW Dance wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda phlant, pobl ifanc, oedolion agored i niwed, neu rhieni, gofawlyr ac asiantaethau eraill i hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Bydd NEW Dance yn cymryd y camau canlynol i geisio cadw plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn ddiogel:

- Recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ofalus, gan sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.
- Darparu a diweddarau cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant yn rheolaidd i staff a gwirfoddolwyr.
- Mabwysiadu gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed a chod ymddygiad i'r holl staff a gwirfoddolwyr.
- Datblygu a gweithredu polisi e-ddiogelwch a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Datblygu a gweithredu polisi ynghylch cyffwrdd a chyswllt corfforol addas i sicrhau amgylchedd gweithio cysurus a diogel i bawb sy'n bresennol.
- Sicrhau bod gan bob ymarferydd gofnod o'r oedolyn cyfrifol sy'n casglu plant/pobl ifanc/oedolion agored i niwed ar ddiwedd sesiwn, gan gynnwys y defnydd o gyfrinair os oes angen.
- Sicrhau bod gwarchodwr yn bresennol mewn perfformiadau lle bo'n berthnasol.
- Sicrhau bod trwydded berfformio mewn grym lle bo'n berthnasol.
- Gofyn am ganiatâd cyfryngau gan rieni/staff yr ysgol fel bo'n addas.
- Gwerthfawrogi, parchu a gwrando ar gyfranogwyr, a monitro newidiadau mewn ymddygiad etc.
- Cydnabod, ymateb, cofnodi ac adrodd unrhyw bryderon i arweinydd diogelu NEW Dance neu bwynt cyswllt arall addas (gweler Siart Lif Gweithdrefnau Diogelu).

Bydd NEW Dance yn cymryd y camau canlynol i geisio cadw staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel:

- Gweithredu'r Polisi Gweithiwr Sydd ar ei Ben ei Hun.
- Darparu amrywiol lwyfannau cyfathrebu (rhifau ffôn tir a symudol y cwmni, grwpiau cyfryngau cymdeithasol caeedig i staff, e-bost etc).
- Darparu larymau personol i ymarferwyr.
- Datblygu a gweithredu polisi ynghylch cyffwrdd a chyswllt corfforol addas er mwyn sicrhau amgylchedd gweithio cysurus a diogel i bawb sy'n bresennol.
- Penodi arweinwyr diogelu a diogelwch tân mewn ysgolion, a sicrhau bod ymarferwyr yn gwybod sut i gysylltu â nhw.

Mae NEW Dance wedi ymrwymo i adolygu polisi ac arferion da'n flynyddol.

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

*Mae fersiwn Saesneg o'r polisi hwn gael ar gais
An English version of this policy is available on request*